CYRCHFAN
WILDFOX
RESORTS

# WILDFOX RESORTS NEWSLETTER #2
# CYLCHLYTHYR CYRCHFAN WILDFOX #2

Welcome to the second edition of the Wildfox Resorts newsletter. We're excited to reveal our dynamic brand and introduce you to our supply chain partners. We'll also dive into the latest news on our progress and unveil our Public Attitudes to the UK Staycation Market, September 2022 report.

Croeso i'r ail rifyn o gylchlythyr Cyrchfan Wildfox. Rydyn ni wrth ein bodd o allu datgelu ein brand deinamig a chyflwyno ein partneriaid cadwyn gyflenwi i chi. Byddwn ni hefyd yn plymio i ganol y newyddion diweddaraf am ein cynnydd ac yn datgelu ein hadroddiad Agweddau Cyhoeddus i'r Farchnad Gwyliau Gartref yn y DU, Medi 2022.

## Introducing our brand

We've developed a powerful brand that packs a punch and marks a distinctive entry into the leisure and tourism industry in Wales. Check out what's changed below:

| | | |
|---|---|---|
| | CYRCHFAN WILDFOX RESORTS | CYRCHFAN WILDFOX RESORTS CWM AFAN AFAN VALLEY |
| The new Masterbrand logo strips everything back to what is 'true' for Wildfox - being brave, adventurous, and bold. The minimal approach to this design emphasises its strength and confidence. | Wildfox Resorts is a concept inspired, created, and delivered in Wales. We have developed a bilingual logo to ensure the brand reflects our local heritage, and ensures the team, stakeholders, and community members | Our first resort will be nestled in the beautiful Afan Valley, with panoramic views of the South Wales Valleys. |

| | | |
|---|---|---|
| | recognise and feel connected to its roots. | |

To coincide with the launch of the brand, we have refreshed our website. We want to hear your thoughts on our new look, so don't be a stranger. Let us know via our socials or website form.

## Cyflwyno ein brand

Rydyn ni wedi datblygu brand grymus sy'n taro'r nod ac sy'n nodi cyflwyniad trawiadol i'r diwydiant hamdden a thwristiaeth yng Nghymru. Gweld beth sydd wedi newid isod:

| | | |
|---|---|---|
| | CYRCHFAN WILDFOX RESORTS | CYRCHFAN WILDFOX RESORTS CWM AFAN AFAN VALLEY |
| Mae'r logo Brand Cyffredinol yn tynnu'r cyfan yn ôl i'r hyn sy'n 'wirioneddol' ar gyfer Wildfox – bod yn ddewr, yn anturus a chryf. Mae'r dull lleiafsymiol hwn i'r cynllun yn pwysleisio cryfder a hyder. | Mae Cyrchfan Wildfox yn gysyniad a ysbrydolwyd gan Gymru, ei greu yma a'i ddarparu yma. Rydym wedi datblygu logo dwyieithog i sicrhau fod y brand yn adlewyrchu ein treftadaeth leol, ac yn sicrhau fod y tîm, rhanddeiliaid, ac aelodau'r gymuned, yn cydnabod ac yn teimlo cyswllt â'i wreiddiau. | Bydd ein cyrchfan gyntaf yn swatio yng Nghwm Afan hardd, gyda golygfeydd ysgubol dros Gymoedd De Cymru. |

I gyd-fynd â lansio'r brand, rydym wedi rhoi ail wynt i'n gwefan. Hoffem glywed eich barn am ein gwedd newydd, felly peidiwch â bod yn ddieithr. Gadewch i ni wybod dros y cyfryngau cymdeithasol neu defnyddiwch y ffurflen ar y wefan.

# Meet our supply chain partners

We're proud to announce our supply chain partners that are supporting us to deliver our vision for the Afan Valley site as part of our expert delivery team.

So far, we've partnered with 11 consultancies to bring Wildfox Resorts to life including our project architects, local surveyors, hospitality professionals and even expert adventurers. The team includes: Alpine Land Surveyors, Powell Dobson Architects, Stantec, Blake Morgan, ESP, Keystone, Copper Consultancy, Turner & Townsend, Hotel Makers, VentureXtreme, Nineteen47 and Lime Transport.

You can read about their roles and the people behind the scenes on our news page.

This team represents significant expertise and strength. However, we acknowledge this is only the beginning of our journey.

We will continue to develop our team and actively engage with a full range of suppliers as we move through into procurement and construction.

We'd encourage any local businesses to share details with us. Details can be logged on our website.

We are developing our procurement strategy and will seek early contractor involvement to further inform our thinking. The team will share procurement opportunities via our website, socials and ongoing comms updates throughout the phases of the Afan Valley resort.

# Cwrdd â’n partneriaid yn y gadwyn gyflenwi

Rydyn ni’n falch iawn o gyhoeddi pwy yw ein partneriaid cadwyn gyflenwi sy’n ein cefnogi i gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer Cwm Afan fel rhan o’n tîm cyflenwi arbenigol.

Hyd yn hyn, rydym wedi partneru gydag 11 o gwmnïau ymgynghori i ddod â Chyrchfan Wildfox yn fyw, gan gynnwys penseiri ein prosiect, tirfesurwyr lleol, gweithwyr proffesiynol ym maes lletygarwch, a hyd yn oed anturwyr proffesiynol. Ymysg y tîm mae: Alpine Land Surveyors, Powell Dobson Architects, Stantec, Blake Morgan, ESP, Keystone, Copper Consultancy, Turner & Townsend, Hotel Makers, VentureXtreme, Nineteen47 a Lime Transport.

Gallwch ddarllen am eu rolau a’r bobl y tu ôl i’r llenni ar ein tudalen newyddion.

Mae’r tîm hwn yn cynrychioli arbenigedd a chryfder sylweddol. Ond rydyn ni’n cydnabod mai di ond dechrau’r daith yw hyn.

Byddwn ni’n parhau i ddatblygu ein tîm ac ymgysylltu’n weithredol ag ystod lawn o gyflenwyr wrth i ni symud drwodd i’r camau caffael ac adeiladu.

Hoffem annog unrhyw fusnesau lleol i rannu’u manylion gyda ni. Gellir cofnodi manylion ar ein gwefan.

Rydyn ni wrthi'n datblygu ein strategaeth gaffael a byddwn yn ceisio ymwneud cynnar gan gontractwyr i addysgu ein proses o feddwl ymhellach. Bydd ein tîm yn rhannu cyfleoedd caffael drwy ein gwefan, cyfryngau cymdeithasol a diweddariadau cyfathrebu drwy gydol holl gamau creu cyrchfan Cwm Afan.

## Community

We have been pleased to meet with the Councils economic development team and NPTC Group of Colleges to start to understand potential supply chain, and future training and job opportunities. We were delighted to also visit Cymer primary school and discuss how we inspire mountain bike champions of the future! Working together with local partners, there are going to be exciting discussions on how to connect families and businesses into the resort to make a real difference in people's lives.

Shortly, we will meet with the community safety partnership to discuss how the community as a whole can keep safe and benefit from the resort.

## Cymuned

Rydym wedi bod yn falch o gwrdd â thîm datblygu economaidd y Cyngor a Grŵp Colegau NPTC i ddechrau deall y ddarpar gadwyn gyflenwi, a chyfleoedd hyfforddi a chreu swyddi i'r dyfodol. Roeddem wrth ein bodd o allu ymweld hefyd ag Ysgol Gynradd Cymer a thrafod sut rydyn ni'n ysbrydoli pencampwyr beicio mynydd y dyfodol! Drwy weithio ar y cyd â phartneriaid lleol, bydd trafodaethau cyffrous ar sut i gysylltu teuluoedd a busnesau â'r gyrchfan i greu gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl.

Yn fuan, byddwn ni'n cwrdd â'r bartneriaeth diogelwch cymunedol i drafod sut y gall y gymuned gyfan gadw'n ddiogel ac elwa o'r gyrchfan.

## Latest planning news

On 6th September 2022, Wildfox Resorts received approval to make non-material amendments to the existing outline planning consent granted to the Afan Valley site to reflect site conditions which were uncovered by our programme of ground investigations. The work has been enormously helpful to define the extent of coal mining as well as understand local geology to inform our building locations and their detailed design.

This approval has enabled the Reserved Matters application, or detailed design, to be submitted to Neath Port Talbot County Borough Council.

Reserved Matters are those aspects of a proposed development that do not need to be submitted with an outline planning application, (i.e. they can be 'reserved' for later determination) and can include, for example, the approach to landscaping, lighting, energy and building design.

We have provided a summary of our Reserved Matters application on our website which sets out further context as well as the conditions that Wildfox Resorts is seeking approval for.

## Newyddion cynllunio diweddaraf

Ar 6 Medi 2022, derbyniodd Cyrchfan Wildfox gymeradwyaeth i wneud diwygiadau ansylweddol i'r caniatâd cynllunio amlinellol oedd wedi'i roi i'r safle yng Nghwm Afan i adlewyrchu amodau ar y safle a ddatgelwyd gan ein rhaglen o ymchwiliadau tir. Mae'r gwaith wedi bod yn eithriadol o ddefnyddiol er mwyn diffinio hyd a lled y cloddio am lo a ddigwyddodd yma, yn ogystal â deall daeareg leol i'n hysbysu ynghylch lleoli adeiladau a'u cynllun manwl.

Mae'r cydsyniad hwn wedi ein galluogi i wneud cais Materion a Gedwir yn Ôl, neu gynllunio manwl, i'w gyflwyno gerbron Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot.

Materion a Gedwir yn Ôl yw'r agweddau hynny o gynllun arfaethedig nad oes angen eu cyflwyno gyda chais cynllunio amlinellol (h.y. gellir eu 'cadw'n ôl' ar gyfer penderfynu arnynt yn ddiweddarach) a gallant gynnwys, er enghraifft, y dull o fynd ati i dirlunio, goleuo, defnyddio ynni a chynllunio adeiladau.

Rydym wedi darparu crynodeb o'n cais Materion a Gedwir yn Ôl ar ein gwefan sy'n amlinellu cyd-destun pellach yn ogystal â'r amodau y mae Cyrchfan Wildfox yn ceisio cymeradwyaeth ar eu cyfer.

## Staycation research

To support our vision for the Afan Valley, we recently undertook research with the general public to answer the question…what exactly are people looking for in an adventure and leisure resort?

The report, 'Public Attitudes to the UK Staycation Market, September 2022' reveals that nature escapes are the new thing with 64% of people eager to explore natural landscapes. Whilst interest and interaction with outdoor pursuits and activities are on the up - across all ages!

The report also highlights what many of us here at Wildfox believed to be true, with 57% of respondents agreeing that experience-led trips are a must. Maximising the little time we get with our families and friends, in a quality environment. People want good food, a restful sleep and great service, which is what we set to achieve at a Wildfox Resort.

Wildfox Resorts will offer a safe environment for customers to explore and learn, creating an inclusive programme of activities for all to enjoy and positioning our hospitality experience fairly to reflect the high quality offer, whilst being competitive in the market.

Check out our research to discover more

# Ymchwil Gwyliau Gartref

I gefnogi ein gweledigaeth ar gyfer Cwm Afan, fe wnaethon ni ymchwil yn ddiweddar ymysg y cyhoedd gan holi'r cwestiwn...  beth yn union mae pobl yn chwilio amdano mewn cyrchfan antur a hamdden?

Mae'r adroddiad, 'Agweddau Cyhoeddus i'r Farchnad Gwyliau Gartref yn y DU, Medi 2022', yn datgelu mai dihangfa i fyd natur yw'r peth newydd, gyda 64% o bobl yn awyddus i ddarganfod tirweddau naturiol. Ar yr un pryd mae diddordeb mewn ac ymgysylltu â gweithgareddau awyr agored ar gynnydd – ar draws pob grŵp oedran !

Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at rywbeth rydyn ni yma yn Wildfox wedi credu sy'n wir, wrth i 57% o ymatebwyr gytuno fod teithiau a arweinir gan brofiadau yn hanfodol. Gwneud yn fawr o'r amser prin sydd gennym gyda'n teuluoedd a'n cyfeillion, mewn amgylchedd o ansawdd uchel. Mae pobl eisiau cael bwyd da, cwsg heddychlon a gwasanaeth rhagorol, sef beth rydyn ni eisiau'i gyflawni mewn Cyrchfan Wildfox.

Bydd Cyrchfan Wildfox yn cynnig amgylchedd diogel i gwsmeriaid allu darganfod a dysgu, gan greu rhaglen gynhwysol o weithgareddau y gall pawb eu mwynhau, a lleoli ein profiad lletygarwch yn deg i adlewyrchu'r cynnig o ansawdd uchel, a pharhau ar yr un pryd i fod yn gystadleuol yn y farchnad.

Edrychwch ar ein hymchwil i ddarganfod mwy

## What's coming up?




As the seasons change and impact ground conditions, site activity will be quiet in order to protect our workforce. However, we will be busy behind the scenes over Winter to push on with resort design and finalising the procurement and construction programme.

# Beth sydd ar y gweill?




Wrth i'r tymhorau newid ac effeithio ar gyflwr y tir dan draed, bydd gweithgarwch ar y safle'n tawelu er mwyn gwarchod ein gweithlu. Ond byddwn ni'n parhau i fod yn brysur y tu ôl i'r llenni dros y gaeaf er mwyn gwthio ymlaen gyda chynllunio'r gyrchfan a gorffen y rhaglen gaffael ac adeiladu.